# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

## 13/5/24

**Presennol:** D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Emyr Jones, Geraint Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)

Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Eleri Jones, Tyly Roberts

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 11/3/24.
5. Materion y Clerc / Cofnodion:
   i. Croeso Cymraeg i Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Llŷn Cofnodion 12a – diolchwyd am yr ymateb a gafwyd a chytunwyd i adael y mater ar y bwrdd ar hyn o bryd.
   ii. Triathlon: Adroddwyd ar gyfarfod Cynghorwyr Cymuned Llanuwchllyn gyda threfnydd y Triathlon; edrychir ymlaen at gydweithio gyda'r cwmni profiadol Cymraeg hwn sy'n ymddangos yn drefnus ac yn llawn ymwybodol o'r anghenion lleol. Maent yn deall pwysigrwydd hanfodol stiwardio cryf wrth bont Mwnwgl y Llyn i atal trafnidiaeth rhag tagu'r B4403.
   iii. Di-ffibs y Cygor: rhoddodd y Cynghorwyr ganiatâd i'r Clerc archebu a thalu ar unwaith am anghenion newydd os bydd y rhai presennol yn mynd allan o ddyddiad.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd gan y Cynghorydd Alan Jones Evans.

   Gan fod y biniau ail-gylchu wedi eu symud fyny'r cwm i osgoi cam-ddefnydd, mae'r gorlan ail-gylchu wedi ei thynnu o faes parcio'r Parc Cenedlaethol erbyn hyn.

   Bu'r Cynghorydd ar ymweliad safle i'r tro wrth y grid ar ffordd Rhydwen, a chytunodd y peiriannydd fod wir angen pyst i ddynodi ymyl y ffordd gan fod yr afon yn gallu gorlifo dros y ffordd. Nid oedd y peiriannydd yn gallu cyfiawnhau gwario ar rwystr ddur wrth adwy Pant yr Onnen, er mor serth yw'r dibyn. Ond sylwodd fod y ffordd yn gollwng rhywfaint ac y bydd angen ei chryfhau.

   Er ceisio nifer o weithiau, nid yw'r Cynghorydd wedi llwyddo hyd yn hyn i gael ateb gan Iwan ap Trefor am apêl y Clirffordd, ond fe fydd yn dal ati i geisio dod a'r mater hwn i derfyn.

7. **Materion lleol** y Cynghorwyr:

    i. Adroddodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Sir ar gyfarfod buddiol gyda'r heddlu ar 3/5/14. Braf oedd rhannu cytundeb cyffredinol ar y mesurau 20mya. Byddai camerâu cylch-cyfyng yn Y Bala o ddefnydd, ond mae ymddygiad plant a phobl leol yn arbennig o dda. Nododd y byddai Cofnodion o'r cyfarfod yn dderbyniol.

    ii. Adroddwyd am sbwriel a llanast ar lan y llyn yn dilyn unrhyw ddiwrnod braf, a chytunodd y Clerc i anfon llythyr at Parc Cenedlaethol Eryri i ofyn am gyfarfod i drafod mesurau ymarferol ac effeithiol i atal hyn.

8. **Ariannol:**

    i. Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ariannol.

    ii. Derbyniwyd taliad cyntaf o'r Praesept.

    iii. Cytunwyd i dalu anfonebau Zurich (yswiriant) ac Un Llais Cymru (tâl aelodaeth).

    iv. Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r contractiwr ac i hawlio'r grant gan Barc Cenedlaethol Eryri pan fydd y gwaith o greu llwybr yn y fynwent wedi ei gwblhau.

9. **Datganiad Blynyddol:** Cwblhawyd y Datganiad a oedd wedi ei ddychwelyd oddi wrth yr Archwilydd Mewnol (Cyngor Gwynedd) - gweler Cofnod 9 Cyfarfod Blynyddol 13/5/24. Diolchwyd i'r Clerc am baratoi'r ffurflen ac i Gyngor Gwynedd am wneud yr archwiliad mewnol.

10. **Y fynwent:**

    i. Llwybr: mae'r mwyafrif y gwaith wedi ei gwblhau erbyn hyn.

    ii. Diweddariad ar gofrestru'r fynwent: mae'r Clerc wedi ateb cwestiynau'r Gofrestrfa Tir gan roi hanes newid enw o *Llangower Parish Council* i **Cyngor Cymuned Llangywer** o ganlyniad i newidiadau deddfau Llywodraeth Leol.

    iii. Gwaredu gwastraff: ceisir cael arwydd "Dim Gwastraff all gael ei ail-gylchu" i'w osod ar bin y fynwent er mwyn cyd-ymffurfio a'r ddeddf newydd.

11. **Bioamrywiaeth:** Adroddiad parthed plannu coed Yw : diolchwyd i Tyly Roberts am gyfarfod a swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a thrafod plannu coed Yw yn y fynwent. Nid oedd y Cynghorwyr yn llwyr gytuno a phlannu gwrych gan y gallai gostio i'r Cyngor i'w phlygu a'i thocio; nid oes gwrthwynebiad os ydy'r Parc yn ymrwymo i'w chynnal.

12. **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd Adroddiad gan W D Williams. Cytunwyd i anfon dyddiadau cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llangywer er mwyn iddynt geisio osgoi cyfarfod ar yr un noson a'r Cyngor.

13. **Cynllunio:** Ystyriwyd ceisiadau

    i. NP5/70/LB28B Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r bont droed gan gynnwys gosod trac trên a gwaith cysylltiedig (Ail-gyflwyniad) Pont Mwnwgl-y-Llyn, Bala:

Penderfyniad y Cyngor: Gwrthwynebu

ii. NP5/70/ 576A Estyniad i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan drên a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol (Ail-gyflwyniad)

Penderfyniad y Cyngor (yn dilyn Penderfyniad ar NP5/70/LB28B uchod): Dim sylw pellach.

**14. Gohebiaeth:**

i. **Un Llais Cymru: nodwyd derbyn**
   a. Bwletin Mai
   b. Gwybodaeth am Hyfforddiant 11/06/2024
   c. Cytundeb Cyflogi Newydd – i'w ystyried eto

ii. **Cyngor Gwynedd** (hwylusydd): Cytunodd Clwyd Davies a Geraint Roberts i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod Cynllun Adfywio Ardal Y Bala a Phenllyn ar Mai 20fed. Bydd y Cynghorydd Alan Jones Evans yn mynychu fel Cynghorydd Gwynedd.

iii. **Cymdeithas yr Iaith:** Derbyniwyd gwybodaeth am adroddiad y Gymdeithas i Lywodraeth Cymru ar Addysg Gymraeg i Bawb: Cyrraedd y Nod

iv. **Parc Cenedlaethol Eryri:**

- Anogwyd Cynghorwyr i ymateb fel unigolion i'r Ymgynghoriad ar Erthygl 4
- Recriwtio aelod newydd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: gan fod dybryd angen am aelodau lawr gwlad, mynegodd un Cynghorydd ei ddiddordeb mewn cynnig ei enw a diolchwyd iddo am ei barodrwydd.

**v.** **Grant y Neuadd:** Ymatebodd y Clerc ar ran y Cyngor ar y defnydd o'r grant a'i werth i'r gymuned.

15. **Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 9/7/24 yn y Neuadd Bentref, Llangywer am 7.30pm.